News and information for Wales from:
Wales Council for Voluntary Action
Baltic House, Mount Stuart Square,
Cardiff Bay, CF10 5FH
Helpdesk 0800 2888 329 www.wcva.org.uk

Y Comisiwn Elusennau yn cyhoeddi blaenoriaethau allweddol

Mae'r Comisiwn Elusennau wedi cyhoeddi ei ddwy flaenoriaeth strategol allweddol ar gyfer y tair blynedd nesaf.

Yn ddiweddar cyhoeddodd y Comisiwn ei Gynllun Strategol ar gyfer y cyfnod 2012-2015. Ynddo, caiff cynlluniau i ddatblygu cydymffurfiaeth ac atebolrwydd y sector elusennol, a chynlluniau i ddatblygu hunanddibyniaeth y sector eu hamlinellu.

O ran y flaenoriaeth allweddol gyntaf, mae gan y Comisiwn nifer o bwyntiau gweithredu, yn cynnwys:

- Dwyn elusennau i gyfrif drwy ofynion tryloywder, ac adolygu'r wybodaeth y mae'n ofynnol i elusennau ei chyflwyno i sicrhau ei bod yn berthnasol.
- Gwneud ymyriadau pendant mewn achosion o esgeulustod a chamymddwyn, a bod yn fwy rhagweithiol a llai adweithiol wth sicrhau bod elusennau yn cydymffurfio a^'u rhwymedigaethau cyfreithiol.
- Cysylltu a^ rheolyddion ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith i sicrhau rôl fwy cydlynol wrth ymdrin a^ chamymddwyn.

Ac o ran yr ail flaenoriaeth allweddol, bwriad y Comisiwn yw:

- Gwella hygyrchedd ei ganllaw a dangos yn glir beth sy'n rhaid i elusennau wneud i gydymffurfio.
- Datblygu strategaeth bartneriaeth sy'n galluogi cyfeirio cynnar at gyrff y sector er mwyn symud at sefyllfa lle na chaiff y Comisiwn ei weld fel y pwynt cyntaf neu'r unig bwynt ar gyfer cyngor wedi'i deilwra.
- Hyrwyddo nodi a rheoli risg y sector yn gynnar.
- Lleihau gofynion Ymddiriedolwyr i geisio caniata^d cyfreithiol y Comisiwn, drwy adolygu Deddf Elusennau 2006.

Dywedodd Sam Younger, Prif Weithredwr y Comisiwn Elusennau: 'Mae'n gynllun clir, dealladwy ar gyfer y dyfodol sy'n egluro ein rôl wrth weithredu ar ran y cyhoedd wrth reoleiddio'r sector elusennol. Rydym yn ddiolchgar am fewnbwn pawb sydd wedi rhannu eu barn gyda ni am beth ddylai ein blaenoriaethau fod yn y dyfodol, gan ystyried y bydd llai o gyllid gennym yn y tair blynedd nesaf.

'Dylai'r cynllun roi hyder i'r cyhoedd yn yr hyn gallant ddisgwyl gweld gennym ni a gan yr elusennau y mae ganddynt ddiddordeb ynddynt p'un a ydynt yn rhoddwr, yn wirfoddolwyr neu weithiwr neu'n fuddiolwr.'

I ddarllen y Cynllun Strategol cyfan, yn cynnwys manylion sut mae'r Comisiwn yn bwriadu gweithredu'r blaenoriaethau hyn, ewch i www.charitycommission.gov.uk.

Sut rydych chi'n defnyddio'r rhyngrwyd?

Mae'r Llywodraeth wedi lansio arolwg sy'n edrych ar sut mae grwpiau gwirfoddol a chymunedol yn defnyddio gwefannau a chyfryngau cymdeithasol i rwydweithio a dysgu.

Dim ond tua pum munud mae'r arolwg yn ei gymryd i'w lenwi - gallwch chi wneud hyn yma: http://tinyurl.com/77jlewx

Cynlun grantiau cefnogi byw yn gynaliadwy

Lansiwyd y cynllun grantiau Cefnogi Byw yn Gynaliadwy yn ddiweddar ac mae'n gynllun grant sydd newydd ei gomisiynu ac sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Amgylchedd Cymru a fydd y rhoi'r cynllun newydd arloesol hwn ar waith, ar y cyd â phartner craidd newydd y fenter, Cynnal Cymru.

Bydd y cynllun yn cefnogi prosiectau a fydd yn helpu i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru – neu adeiladu'r gallu i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd – drwy fynd i'r afael ag ymddygiad penodol neu ddewisiadau o ran ffordd o fyw.

Drwy'r prosiectau arloesol hyn, rhagwelir y bydd dinasyddion Cymru yn cael eu grymuso i wneud newidiadau er mwyn sicrhau ffordd fwy cynaliadwy o fyw.

Gwerth y cynllun yw £250,000 a bydd ar gael i bob sector yng Nghymru. Disgwylir y bydd y rhan fwyaf o'r ceisiadau am grant yn amrywio rhwng £5,000 a £15,000. Fodd bynnag dan amgylchiadau eithriadol gall y ffigur hwn godi i hyd at £35,000.

Bydd gwybodaeth am y cynllun newydd ar gael drwy Amgylchedd Cymru ar 02920 431727 neu info@environment-wales.org. Ceir cyfleoedd eraill hefyd yn nes ymlaen yn y flwyddyn i ddysgu mwy am y cynllun a sut gall Amgylchedd Cymru helpu i ddatblygu'ch prosiect.

Wythnos Hinsawdd 2012

Cynhelir Wythnos Hinsawdd 2012 rhwng 12 a 18 Mawrth 2012.

Mae Wythnos Hinsawdd yn ymgyrch genedlaethol ar gyfer ysbrydoli gweithredoedd newydd i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Bydd yn dod i ben drwy gynnal miloedd o ddigwyddiadau a gweithgareddau yn ystod wythnos 12-18 Mawrth 2012, a fydd yn cael eu trefnu gan fudiadau o bob rhan o'r gymdeithas.

Nod yr ymgyrch yw adnewyddu ein huchelgais i greu dyfodol mwy cynaliadwy, carbon isel drwy ddangos ffyrdd go iawn, ymarferol o fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

Her Wythnos Hinsawdd 2011 oedd y gystadleuaeth amgylcheddol fwyaf erioed ym Mhrydain, lle gwelwyd dros 145,000 o bobl yn cymryd rhan yn y fersiynau undydd ac un awr.

Gallwch chi gofrestru nawr ar gyfer Her Wythnos Hinsawdd 2012, a gynhelir ddydd Llun 12 Derbynnir ceisiadau ar gyfer Gwobrau Wythnos Hinsawdd nawr hefyd.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch www.climateweek.com

Data Protection Act 1998 Contact details of all recipients of the National Supplement are held and processed by WCVA on computer. The information is used by WCVA for the monitoring and promotion of the voluntary sector in Wales. Contact details are disclosed to third parties for the purposes of assisting this promotion.
Wales Council for Voluntary Action, Head Office - Baltic House, Mount Stuart Square, Cardiff CF10 5FH, registered charity number 218093, company limited by guarantee 425299, registered in Wales.